Cwrs rhwystrau tedi

Trosolwg

Heriwch y tedi drwy adeiladu cwrs rhwystrau gan ddefnyddio deunyddiau rhydd, a cheisiwch wella iaith leoliadol ar yr un pryd.



Gweithgareddau

Yr her yw cydweithio i adnabod lleoliad yn yr awyr agored a chreu cwrs rhwystrau sy'n addas ar gyfer tedi neu degan meddal arall.
Ar hyd y cwrs, rhaid bod y tedi'n dod ar draws rhwystrau y mae angen iddo:

Eu dringo
Dringo drostynt
Mynd drwyddynt
Cropian danynt
Llithro ar eu hyd
Eu hofni!

Ar eich marciau……parod……ewch!

Offer

- Amrywiaeth o ddeunyddiau rhydd, e.e. cafnau bargod, rhaffau, teiars, estyll a rhwydi cuddliwio.
- Offer clymu, e.e. llinyn, strapiau Velcro a rhwymau bynji â phelen.
- Camera i dynnu lluniau!

Cwestiynau allweddol

Pa ddeunyddiau byddwch chi'n eu defnyddio, a pham?
A yw tedi wedi profi pob un o'r pum symudiad?Beth yr oedd yn ei ofni, a pham?

Deilliannau dysgu

Mae'r gweithgaredd hwn yn hybu amrywiaeth eang o sgiliau a deilliannau dysgu, sy'n cynnwys atgyfnerthu iaith leoliadol, defnyddio sgiliau echddygol bras wrth godi ac adeiladu, a defnyddio sgiliau cymdeithasol-fuddiol megis gwaith tîm a datrys problemau.

Symud y dysgu yn ei flaen

- Heriwch y plant i ddefnyddio'r deunyddiau rhydd i greu fersiwn mwy o faint o'r cwrs rhwystrau, sy'n ddigon mawr iddyn nhw ei ddefnyddio.